Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 26.07.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# AMAETHYDDIAETH: Menter meincnodi carbon pridd Cyswllt Ffermio

Bydd ffermwyr yn cael mynediad at ddata meincnodi carbon pridd ledled Cymru am y tro cyntaf. Mae Prosiect Pridd Cymru wedi casglu 1420 o samplau pridd a gymerwyd ar 17 o ffermydd arddangos cig coch a llaeth Cyswllt Ffermio i sefydlu'r deunydd organig a dwyster y pridd. Gall ffermwyr eraill gymryd rhan, gan fod Cyswllt Ffermio ar hyn o bryd yn cynnig Clinigau Pridd am ddim, er mwyn dadansoddi priddoedd a darparu archwiliad carbon pridd i ffermwyr. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3zon6Z2

# ARIANNU: Cronfa Perchnogaeth Gymunedol 2022

Mae'r Gronfa Perchnogaeth Gymunedol yn helpu grwpiau cymunedol i brynu neu adnewyddu asedau a fyddai'n cael eu colli i'r gymuned fel arall, ac mae ar agor ar hyn o bryd. Mae canllawiau am y meini prawf cymhwysedd ar gael ym mhrosbectws y gronfa ar:

https://www.gov.uk/government/publications/community-ownership-fund-prospectus.cy

Mae canllawiau ar sut i gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer y gronfa ar gael ar:

https://www.gov.uk/guidance/community-ownership-fund-round-2-how-to-express-your-interest-in-applying.cy

# HYFFORDDIANT: Cymorth i Dyfu | Cwrs Rheolaeth

Mae rhaglen Llywodraeth y DU, Cymorth i Dyfu: Cynllun Rheolaeth, wedi'i gynllunio i fod yn hylaw ochr yn ochr â gwaith llawn amser, ac mae'n cefnogi arweinwyr busnesau bach i ddatblygu sgiliau sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol, arloesi a mabwysiadu digidol. Mae mwy o wybodaeth am y cwrs nesaf, fydd yn dechrau ym mis Medi yn Ysgol Busnes Bangor, ar gael ar:

https://lnkd.in/eCNjMbqD

Mae gwybodaeth gyffredinol am raglenni Cymorth i Dyfu ar gael ar:

https://helptogrow.campaign.gov.uk/

# DIGWYDDIADAU: Gweminarau Busnes Cymru

Mae gan Busnes Cymru ystod o weminarau ar gael yn ystod yr wythnosau nesaf, yn cynnwys cychwyn busnes, tendro, gweithredu fel cwmni cyfyngedig a trethi a chadw llyfrau. Am fwy o wybodaeth, ac i archebu lle, ewch i Ddigwyddiadur Busnes Cymru ar:

https://wales.business-events.org.uk/cy/

# CYMORTH: Cael help gyda chostau byw

Mae canllawiau gan Llywodraeth Cymru yn amlinellu pa gymorth ariannol a allai fod ar gael i gynorthwyo gyda'r cynnydd mewn costau byw, yn ogystal â chymorth a chyngor, ar gael ar:

https://llyw.cymru/cael-help-gyda-chostau-byw

# RECRIWTIO: Ymestyn ymgyrch Gweithlu Bwyd Cymru

Cafodd ymgyrch Gweithlu Bwyd Cymru ei lansio yn gynharach eleni i annog pobl i ystyried gyrfa yn niwydiant bwyd a diod Cymru ac mae wedi helpu mwy na 100 o bobl i gael gwaith yn y sector yn ystod tri mis peilot yr ymgyrch. Mae'r ymgyrch wedi ei ymestyn hyd ddiwedd mis Tachwedd. Mae mwy am hyn ar:

https://llyw.cymru/mwy-na-100-o-bobl-yn-cael-gwaith-yn-sector-bwyd-diod-cymru

Mae mwy o wybodaeth am Weithlu Bwyd Cymru ar gael ar:

https://www.foodskills.cymru/cy/gweithlu-bwyd-cymru/

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru